**Y Bartneriaeth Gwybodaeth Lesddaliad**

17 Awst 2018

Annwyl Sebastian, Martin,

**Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru**

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru. Roedd cam cyntaf yr ymchwiliad yn ystyried ymateb landlordiaid cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar ein tudalen ar y we. Bydd ail gam yr ymchwiliad yn ystyried materion yn y sector preifat. Dyma'r cylch gorchwyl:

- Sut y mae'r sector preifat wedi ymateb i bryderon ynghylch diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau preswyl?
- Beth yw maint y gwaith adferol y mae angen ei wneud i fodloni safonau diogelwch tân yng Nghymru, a pha drefniadau sydd ar waith i dalu am y costau?
- Sut y caiff lesddeiliaid/preswylwyr yng Nghymru wybod am ddatblygiadau diweddar, a pha sicrwydd a roddir iddynt ynghylch mesurau diogelwch rhag tân yn eu tyrau? Yn fwy cyffredinol, i ba raddau y gwrandewir ar farn preswylwyr am ddiogelwch tân ac i ba raddau yr ymdrinir â'r farn honno?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Pa gymorth ariannol neu ymarferol ychwanegol, os o gwbl, sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU er mwyn helpu i sicrhau bod tyrau o fflatiau yn ddiogel?

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn y Bartneriaeth Gwybodaeth Lesddaliad ar unrhyw agwedd ar y cylch gorchwyl, ac yn arbennig atebion posibl i brydleswyr a allai wynebu biliau sylweddol i gael gwared ar gladin anniogel.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dechrau casglu tystiolaeth lafar ar 27 Medi 2018 felly byddai'n ddefnyddiol cael eich barn cyn y dyddiad hwnnw.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, neu am yr ymchwiliad, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Naomi Stocks, drwy ffonio 0300 200 6222 neu e-bostio naomi.stocks@cynulliad.cymru.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.